

## Adeiladu Bocs Clwydo i Ystlumod

### Build a Bat Roost Box



Ymddiriedolaeth  
Natur  
**Gwent**  
Wildlife Trust

Datblygwyd y cynllun bocs clwydo i ystlumod yma gan Grŵp Ystlumod Caint a darparwyd rhywfaint o'r wybodaeth gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod.

Defnyddiwch bren cynaliadwy, garw wedi'i lifio a heb ei drin. Mae angen arwyneb garw ar ystlumod i afael ynddo. Os nad oes pren garw wedi'i lifio ar gael mae'n bosibl defnyddio pren wedi'i blaenio'n llyfn drwy greu arwyneb garw gyda rhigolau wedi'u torri yn y pren, fel yn yr esiampl yma.

Mae'n bwysig bod y bocs ystlumod yn dal dŵr ac yn rhydd o ddrafftiau felly gwnewch yn siŵr bod pob darn o bren wedi'i sgriwio'n dynn gyda'i gilydd.

#### Bydd angen:

- Planc o bren 1300mm o hyd a 200mm o led ac o leiaf 20mm o drwch
- Pren ar gyfer y bariau cefn a'r codwyr i greu agennau. Yn yr esiampl yma, mae batonau 20mm x 20mm wedi cael eu defnyddio. Bydd arnoch angen hyd o 1600mm.
- Llif
- Dril
- Tâp mesur
- Pensil
- Tua 40 sgriw (4mm x 35mm yn gweithio'n iawn)
- Sgriwdreifer
- Bracedi i gysylltu eich bocs ystlumod â wal

This bat roost box design was developed by Kent Bat Group and some of the information was provided by Bat Conservation Trust.

Use sustainable, rough sawn and untreated timber. Bats require a rough surface to grip onto. If rough sawn timber is not available it is possible to use smooth planed timber by creating a rough surface with grooves cut into the wood, as in this example.

It is important that the bat box is rainproof and draught-free so ensure all pieces of wood are tightly screwed together.

#### You will need:

- A plank of timber 1300mm long by 200mm wide and at least 20mm thick
- Timber for the back bars and risers to create crevices. In this example, 20mm x 20mm batons were used. You'll need a length of 1600mm.
- Saw
- Drill
- Tape measure
- Pencil
- About 40 screws (4mm x 35mm work fine)
- Screwdriver
- Brackets to attach your bat box to a wall

## Dimensiynau

**Torrwch eich planc o bren i'r adrannau canlynol:**

Bwrdd cefn - 480mm

Bwrdd canol - 360mm

Bwrdd blaen - 240mm

To - 220mm

**Torrwch eich baton i'r hyd canlynol:**

Dau yn 360mm

Dau yn 240mm

Dau yn 200mm ar gyfer y bariau cefn

Mae bariau cefn ychydig yn fwy wedi cael eu defnyddio ar gyfer y bocs ystumod yma.

## Dimensions

**Cut your plank of timber into the following sections:**

Back board – 480mm

Middle board – 360mm

Front board – 240mm

Roof – 220mm

**Cut your baton into the following lengths:**

Two at 360mm

Two at 240mm

Two at 200mm for the back bars

Slightly wider back bars were used for this bat box.



## Canllaw cam wrth gam i'w roi at ei gilydd

### Step-by-step assembly guide


Yn yr esiampl yma, mae rhigolau wedi cael eu llifio yn y byrddau cefn a chanol i greu effaith ystol. Gwnaed hyn gan ddefnyddio llif gron, sy'n golygu ei bod yn hawdd creu rhigolau cymharol syth, wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Fodd bynnag, mae posib sicrhau canlyniad yr un mor effeithiol drwy ddefnyddio llif llaw drwy dorri rhigolau cwpl o mm i mewn i'r pren, dim ots pa mor syth ydyn nhw.


In this example, the back and middle boards have had grooves sawn into them to create a ladder effect. This was done using a circular saw, meaning it was easy to create relatively straight, evenly distributed grooves. However, an equally effective result can be achieved using a hand saw by cutting grooves a couple of mm into the wood, regardless of how straight they are.



Gosodwch y codwyr 360mm ar y bwrdd cefn fel y dangosir. Ewch ati i ddriilo tyllau canllaw a defnyddio gwrthsuddo ar bob twll canllaw os gallwch chi. Bydd gwrthsuddo'n sicrhau bod pennau'r sgriwiau'n eistedd o dan wyneb y pren fel bod y darn nesaf o bren yn gorwedd yn wastad, heb adael bwlch. Sgriwiwch gyda'i gilydd.

Lay the 360mm risers onto the back board as shown. Drill guide holes though and use a countersink on each guide hole if you can. Countersinking will ensure that the screw heads sit below the surface of the wood so the next piece of wood lies flat and does not leave a gap. Screw together.






Gosodwch y bwrdd canol (360mm) ar y codwyr.  
Drilio, gwrthsuddo a sgriwio.

Lay the middle board (360mm) onto the risers.  
Drill, countersink and screw.





Ailadroddwch y broses gyda'r codwyr 240mm.

Repeat the process with the 240mm risers.





Nawr atodwch y bwrdd blaen.

Now attach the front board.





Atodwch y bariau cefn yn y safleoedd a ddangosir yn fras.

Attach the back bars in roughly the positions shown.





Gosodwch y to yn ei le yn ddiogel drwy ei ddrilio a'i sgriwio i'w le. Does dim angen gwrthsuddo'r sgriwiau yma ond gwnewch yn siŵr bod bargod ar y to ar bob ochr i stopio glaw rhag mynd i mewn.

Mae'r bargod ar y blaen yn yr esiampl yma tua 80mm ond dim ond canllaw ydi hynny. Ni ddylai'r bargod yn y cefn fod yn fwy na 20mm neu ni fydd y bariau cefn yn gorwedd ar y wal pan fyddwch chi'n ei gysylltu.

Secure the roof by drilling and screwing into position. No need to countersink these screws but ensure that the roof has an overhang on each side to stop rain getting in.

The overhang at the front in this example is about 80mm but that is just a guide. The overhang at the back should not exceed 20mm or the back bars will not be flush with the wall when you attach it.





Yma, mae bracedi wedi cael eu defnyddio oherwydd bydd y bocs ystlumod hwn yn cael ei sgriwio i wal. Mae posib defnyddio gwifren ffensio drwy'r tyllau a'i lapio o amgylch coeden.

Here, brackets have been used as this bat box will be screwed to a wall. Fencing wire can be used to thread through the holes and wrapped around a tree.



Wedi Gorffen

Finished



### **Lleoli eich bocs ystlumod**

Gosodwch eich bocs ystlumod mor uchel â phosibl, o leiaf 4 metr uwchben y ddaear neu ychydig o dan y bondo os ydych chi'n ei roi ar adeilad. Mae hyn yn cynnwys risg yn amlwg felly gwnewch yn siŵr bod y sawl sy'n gosod y bocs yn ei le yn gymwys i weithio ar uchder o ystol neu opsiwn arall.

Gwnewch yn siŵr bod y bocsys wedi cael eu gosod yn eu lle yn briodol, er mwyn osgoi'r risg y byddant yn cwmpo. Unwaith y bydd eich bocs ystlumod wedi'i osod yn ei le, os bydd ystlumod yn symud i mewn, byddech yn torri'r gyfraith pe baech yn ei symud neu ei addasu. Dylid gwirio'r bocsys unwaith y flwyddyn o leiaf ac ar ôl gwyntoedd cryfion, i sicrhau eu bod yn ddiogel yn eu lle o hyd.

Os ydych chi'n ei osod ar goeden, cymerwch ofal a pheidwch â difrodi'r goeden na gwneud unrhyw beth a allai atal ei thyfiant.

Peidiwch â gosod bocs uwchben llwybrau cyhoeddus nac uwchben unrhyw beth nad ydych chi eisiau cael baw ystlumod arno.

### **Monitro bocsys ystlumod**

Mae creu bocsys ystlumod a'u gosod yn eu lle yn gam cadwraeth gwych ond yr hyn sy'n fwy defnyddiol fyth ydi gwybod a ydynt yn cael eu defnyddio, pryd a gan ba rywogaethau.

### **Locating your bat box**

Fix your bat box as high as possible, at least 4 metres above the ground or just under the eaves if attaching to a building. This obviously comes with risk so please ensure that the person installing the box is competent at working at height from a ladder or alternative.

Make sure the boxes are appropriately fitted, to avoid the risk of them falling off. Once your bat box is installed, if bats move in, you would be breaking the law to move or adjust it. The boxes should be checked at least annually and after high winds to ensure they are still securely in place.

If attaching to a tree, take precaution and do not damage the tree or do anything that could prevent growth.

Do not place above public walkways or anything that you do not want to get bat poop on.

### **Monitoring bat boxes**

Making and putting up bat boxes is a great conservation action but what is even more useful is to know whether they are being used, when and by which species.

## **Faint o amser fydd yn mynd heibio cyn y bydd ystumod yn defnyddio'r bocs?**

Weithiau gall gymryd sawl blwyddyn i ystumod ddod o hyd i focs newydd. Byddwch yn amyneddgar! Gall y defnydd araf (neu ddim) fod oherwydd argaeledd manau clwydo eraill yn lleol. Weithiau, fodd bynnag, mae ystumod yn symud i mewn o fewn misoedd neu wythnosau hyd yn oed!

I wirio a yw'r bocs yn cael ei ddefnyddio, cadwch lygad am faw a staeniau iwrin ar yr 'ystol ystumod' fertigol.

Gallwch hefyd wyllo'r bocs am awr y naill ochr i'r machlud i weld unrhyw ystumod sy'n gadael i fwydo, neu wrth i'r wawr dorri, i weld unrhyw ystumod yn dychwelyd i'w clwyd. Mae posib gweld ystumod wrth edrych i mewn i'r bocs oddi isod, ond ni ddylid defnyddio golau oherwydd gallai hyn darfu ar unrhyw ystumod sy'n bresennol.

## **Trwyddedu a'r gyfraith**

Gallwch archwilio fel uchod, heb agor y bocs, heb fod angen trwydded. Fodd bynnag, os oes angen agor y bocs i'w wirio, mae'n rhaid cael gweithiwr ystumod trwyddedig addas yn bresennol hefyd.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwirio bocsys ystumod gael hyfforddiant ar drin ac adnabod ystumod cyn gwneud cais am drwydded. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am drwyddedu ac ystumod ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystumod yn: [www.bats.org.uk/pages/licensing](http://www.bats.org.uk/pages/licensing)

Mae pob ystumod a'u clwydi wedi'u diogelu gan y gyfraith ac mae'n drosedd tarfu ar ystumod, eu trin neu eu lladd yn fwriadol. Y ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru a Lloegr yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

## **How long before bats will use the box?**

Sometimes it can take several years for bats to find a new box. Be patient! Slow (or no) uptake may be due to the availability of other roosts locally. Sometimes, however, bats move in within months or even weeks!

To check if the box is being used, look out for droppings and urine-staining on the vertical 'bat ladder'.

You can also watch the box for an hour either side of sunset to observe any bats leaving to feed, or around dawn to see any bats returning to their roost. Bats may be observed by looking up into the box from below, however no light should be used as this may disturb any bats that are present.

## **Licensing and the law**

You can undertake the non-invasive checks above without needing a licence. However, if the box needs to be opened to check it then there must be a suitably licensed bat worker present. Anyone wishing to undertake bat box checks should obtain training in bat handling and identification before applying for a licence. You can find out more about licensing and bats on the Bat Conservation Trust website at: [www.bats.org.uk/pages/licensing](http://www.bats.org.uk/pages/licensing)

All bats and their roosts are protected by law and it is an offence to deliberately disturb, handle or kill bats. The relevant legislation in England & Wales is the Wildlife and Countryside Act 1981.